



Enw a Chyfeiriad yr Awdurdod  
Atgyfeirio:

Rhif ffôn:

## Ffurflen Atgyfeirio Cymunedau am Waith

Mae Cymunedau am Waith yn rhaglen sydd wedi ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu ar y ffurflen atgyfeirio hon, ac fe fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol i gyflawni ein tasg gyhoeddus yn unol â'r awdurdod swyddogol a roddwyd i ni.

Os nad ydych yn gymwys ar gyfer y rhaglen, byddwn yn rhannu'r wybodaeth ar y ffurflen hon gyda sefydliadau eraill sy'n darparu cymorth cyflogaeth, er mwyn eich helpu i ddod o hyd i waith. Os nad ydych am i'ch gwybodaeth gael ei rhannu, ticiwch y blwch, ac fe fydd eich gwybodaeth yn cael ei dileu o'n cofnodion.

### Rhan A – Manylion y Cwsmer:

|   |  |
|---|--|
| <b>Enw Llawn</b>                        |  |
| <b>Rhif Yswiriant Gwladol</b>           |  |
| <b>Dyddiad Geni</b>                     |  |
| <b>Cyfeiriad (gan gynnwys cod post)</b> |  |
| <b>Rhif Cyswllt</b>                     |  |

### Rhan B: I'w chwblhau gan y swyddog atgyfeirio os yw'r unigolyn a enwir uchod rhwng 16 a 24 oed.

|   |                                 |                                     |
|---|---------------------------------|-------------------------------------|
| A yw'r unigolyn a enwir uchod yn NEET?<br>(person nad yw mewn Addysg,<br>Hyfforddiant na Chyflogaeth).<br>(Ticiwch fel y bo'n briodol.) | Ydi<br><input type="checkbox"/> | Nac ydi<br><input type="checkbox"/> |
| Dyddiad diwethaf y bu'n gweithio. (Gall yr unigolyn sy'n cael ei atgyfeirio ddatgan hyn ei hun).  |                                 |                                     |

**Rhan C: I'w chwblhau gan y swyddog atgyfeirio os yw'r unigolyn a enwir uchod yn 25 oed neu drosodd.**

|   |  |
|---|--|
| Enw'r Budd-dal sy'n cael ei dderbyn neu rhowch "dim" os yw hynny'n briodol.                           |  |
| A yw'r unigolyn yn Ddi-waith neu'n Economaidd Anweithgar? (Cyfeiriwch at y nodiadau).                 |  |
| Dyddiad diwethaf y bu'n gweithio. (Gall yr unigolyn sy'n cael ei atgyfeirio ddatgan hyn ei hun).      |  |
| Os yw'n gweithio, nodwch nifer yr oriau gweithio bob wythnos, neu rhowch "dim" os yw hynny'n briodol. |  |

**Rhan D: I'w chwblhau gan y swyddog atgyfeirio.**

***Rwy'n datgan fy mod yn annibynnol rhag Cymunedau am Waith, nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau gyda'r rhaglen a bod yr wybodaeth a roddir uchod yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi rhoi hysbysiad preifatrwydd Cymunedau am Waith (tudalennau 5 a 6) i'r cwsmer, er gwybodaeth.***

Enw: \_\_\_\_\_

Llofnod: \_\_\_\_\_

Teitl Swydd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

## Nodiadau ar Gwblhau Atgyfeiriad

### Rhan A

Dylai'r rhan hon gael ei chwblhau gan y swyddog atgyfeirio, a ddylai sicrhau bod yr unigolyn yn gwybod y gellid anfon ei fanylion cyswllt ymlaen at raglen cyflogadwyedd arall os nad yw'n bodloni'r amodau o ran cymhwysedd.

### Rhan B

Dylai'r Rhan hon gael ei chwblhau gan y swyddog atgyfeirio, sydd eisoes wedi siarad am amgylchiadau personol yr unigolyn gydag ef. Dylai'r swyddog hwnnw fod yn gyfarwydd â hanes yr unigolyn o ran budd-daliadau, profiad gyrfa a chyrhaeddiad addysgol.

|   |  |
|---|--|
| A yw'r unigolyn a enwir uchod yn NEET?<br>(person nad yw mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth?) | Ticiwch Ydi neu Nac Ydi fel y bo'n briodol   |
| Dyddiad diwethaf y bu'n gweithio  | <u>Gall y cwsmer ddatgan y dyddiad hwn ei hun a dyma'r dyddiad olaf y bu'n gweithio, neu'r diwrnod olaf dan gontract cyflogaeth.</u> |

### Rhan C

Dylai'r Rhan hon gael ei chwblhau gan y swyddog atgyfeirio, sydd eisoes wedi siarad am amgylchiadau personol yr unigolyn gydag ef. Dylai'r swyddog hwnnw fod yn gyfarwydd â hanes yr unigolyn o ran budd-daliadau, profiad gyrfa a chyrhaeddiad addysgol.

|   |   |
|---|---|
| Enw'r Budd-dal sy'n cael ei dderbyn neu rhowch "dim" os yw hynny'n briodol.                   | Budd-daliadau posib (ymysg eraill): <ul style="list-style-type: none"><li>- Lwfans Ceisio Gwaith</li><li>- Lwfans Cymorth Cyflogaeth</li><li>- Cymhorthdal Incwm</li><li>- Credyd Cynhwysol</li></ul>   |
| A yw'r unigolyn yn Ddi-waith neu'n Economaidd Anweithgar? (Cyfeiriwch at y diffiniadau isod). | <b>Di-waith:</b> nid yw'r unigolyn mewn gwaith, mae ar gael i weithio yn y 2 wythnos nesaf, ac mae wedi bod yn chwilio am waith o fewn y 4 wythnos ddiwethaf.<br><b>Economaidd Anweithgar:</b> nid yw'n rhan o'r gweithlu llafur <b>ac</b> nid oes ganddo waith, ond nid yw ar gael i weithio o fewn y 2 wythnos nesaf ac nid yw wedi bod yn chwilio am waith o fewn y 4 wythnos ddiwethaf. Mewn geiriau eraill nid |

|   |   |
|---|---|
|   | <p>yw'n gweithio nac yn "ddi-waith". Nid yw'r rhai sydd mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser yn "economaidd anweithgar" at ddibenion cymhwysedd Cymunedau am Waith.</p> |
| <p>Dyddiad diwethaf y bu'n gweithio</p>   | <p><u>Gall y cwsmer ddatgan y dyddiad hwn ei hun a dyma'r dyddiad olaf y bu'n gweithio, neu'r diwrnod olaf dan gontract cyflogaeth.</u></p>                                 |
| <p>Nifer yr oriau gweithio bob wythnos, neu rhowch "dim" os yw hynny'n briodol.</p> | <p>Nodwch nifer yr oriau mae'r unigolyn yn eu gweithio bob wythnos, neu nifer yr oriau gweithio bob wythnos ar gyfartaledd.</p>   |

### **Rhan D**

**Rhaid i'r swyddog atgyfeirio fod yn annibynnol rhag y gwaith o reoli a chyflawni Cymunedau am Waith. (I gadarnhau, mae hyfforddwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn annibynnol rhag y rhaglen Cymunedau am Waith).**

**Er mwyn i'r atgyfeiriad gael ei dderbyn, rhaid i'r swyddog atgyfeirio lenwi Rhan D i gyd a'i llofnodi.**

### **Hysbysiad Preifatrwydd**

**Dylai'r unigolyn sy'n cael ei atgyfeirio gadw'r hysbysiad preifatrwydd ar dudalennau 5 a 6.**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



**Cymunedau am Waith**  
**Communities for Work**



**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**  
**European Social Fund**

## **Hysbysiad Preifatrwydd Cymunedau am Waith – PN0000021**

Mae Cymunedau am Waith yn rhaglen sydd wedi ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Awdurdodau Lleol a Sefydliadau'r Trydydd Sector, fel cyd-fuddiolwyr, yn darparu gwasanaethau Cymunedau am Waith ar ran Llywodraeth Cymru, sef y rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth bersonol sy'n cael ei darparu gennych ar y ffurflen gofrestru hon. Byddwn yn prosesu'r ffurflen yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a roddwyd i ni, er mwyn i ni fedru cyfrannu at yr ymrwymïadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Genedlaethol, Ffyniant i Bawb. Heb yr wybodaeth hon, nid oes modd eich cofrestru.

### **At ba ddiben fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data:

- At ddibenion cyllido, cynllunio a datblygu polisiau, a monitro canlyniadau'r rhaglen (fel cael swyddi, ennill cymwysterau), gan gynnwys y rhai sy'n ofynnol fel rhan o'r rhaglen ESF.
- At ddibenion gweinyddu, dilysu ac archwilio.
- I gynhyrchu ystadegau am raglen Cymunedau am Waith. Mae'r holl ystadegau sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ddiennw, felly nid oes modd eich adnabod chi fel unigolyn.
- I rannu straeon cadarnhaol i helpu i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau Cymunedau am Waith, i annog mwy o bobl i gofrestru gyda'r rhaglen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich data gyda:

- Darparwr hyfforddiant sydd dan contract i ddarparu hyfforddiant ar ran Cymunedau am Waith, drwy contract gyda Llywodraeth Cymru.
- Cwmni gwerthuso sydd dan contract i werthuso'r rhaglen Cymunedau am Waith ar ran Gweinidogion Cymru, gan gynnwys sut mae gwasanaethau Cymunedau am Waith wedi'ch helpu o bosib i wella eich rhagolygon o ran cyflogaeth neu eich helpu i gael gwaith. Bydd eich data yn cael eu rhannu gyda'r gwerthuswyr, ac mae'n bosib y byddant yn cysylltu â chi er mwyn gofyn sut mae Cymunedau am Waith wedi'ch helpu i baratoi i gael gwaith neu eich helpu i gael gwaith.
- Rhaglen gyflogadwyedd arall os na fyddwch yn gymwys i gael cymorth Cymunedau am Waith.

## **Sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod fy nata yn ddiogel?**

Bydd y data y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu amdanoch yn cael eu storio ar gronfa ddata ddiogel sy'n cael ei phrofi yn rheolaidd o ran diogelwch ac uniondeb. Bydd gan Lywodraeth Cymru gytundeb rhannu data ffurfiol pryd bynnag y byddwn yn rhannu eich data gyda thrydydd parti.

## **Beth yw fy hawliau a'm dewisiadau?**

Dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) mae gennych hawl i:

- weld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch
- sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny
- gwrthwynebu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi (o dan rai amgylchiadau)
- cyfyngu ar yr hyn a brosesir (o dan rai amgylchiadau)
- dileu eich data (o dan rai amgylchiadau)
- cofrestru cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data

## **Am ba hyd fydd Llywodraeth Cymru yn cadw gwybodaeth amdanaf?**

O dan delerau'r cytundeb ariannu, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru, cyd-fuddiolwyr Cymunedau am Waith sy'n cyflawni'r rhaglen, a darparwyr sydd wedi'u contractio, gadw gwybodaeth amdanoch hyd at 31 Rhagfyr 2030, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn dweud yn wahanol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei ddinistrio mewn ffordd ddiogel pan na fydd ei hangen bellach at y dibenion hyn.

## **Manylion Cyswllt**

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, cysylltwch â:

Y Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

[dataprotectionofficer@llyw.cymru](mailto:dataprotectionofficer@llyw.cymru)

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Llinell Gymorth Cymru: 02920 2067 8400 neu y DU: 0303 123 1113: <https://ico.org.uk/>